

PWY YDYM NI?



Mae Lightsource BP yn arweinydd byd-eang yn y farchnad o ran ariannu, datblygu a rheoli atebion ynni clyfar a phrosiectau solar mawr yn y tymor hir. Rydym yn gweithio'n agos gyda chymunedau a busnesau lleol i ddarparu ynni glân, dibynadwy am bris cystadleuol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol carbon isel, ac i fodloni'r her ddwbl o gynydd yn y galw am ynni a'r angen i leihau allyriadau yn y DU a ledled y byd.

YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Mae'n bwysig i ni fod y gymuned leol yn cael gwybod am y cynlluniau ar gyfer y safle ac yn cael cyfle i wneud sylwadau a dysgu am y cynnig. Byddwn yn cynnal digwyddiad gwybodaeth i gyflwyno manylion am y syniadau sydd gennym ar gyfer y prosiect ar hyn o bryd, a byddem yn falch iawn o gael eich adborth.

Dyma fanylion am y digwyddiad gwybodaeth:

Dydd Iau, 1 Awst 2019

Canolfan Gymuned Ystradowen
38 Heol Newydd, Cwmllynfell,
Abertawe SA9 2YY

Galwch draw unrhyw bryd rhwng 3.30pm a 6.00pm



RHAGOR O WYBODAETH

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y prosiect hwn, cysylltwch â thîm y prosiect drwy ffonio **0333 200 0755**, neu anfonwch neges e-bost at info@lightsourcebp.com, gan ddyfynnu "Estyniad Bryn Henllys"



t 0333 200 0755
e info@lightsourcebp.com
www.lightsourcebp.com

PECYN GWYBODAETH I'R GYMUNED

FFERM SOLAR ARFAETHEDIG ESTYNIAD BRYN HENLLYS GER PENTREF CWM-TWRCH UCHAF, ABERTAWE





STATISTICS

Mae Lightsource BP yn gweithio ar gynnig ar gyfer fferm solar ger pentref Cwm-twrch Uchaf, Abertawe. Byddwn yn ariannu ac yn gweithredu'r fferm solar arfaethedig a fydd yn cysylltu â'r rhwydwaith trydan lleol, gyda chapasiti i ddarparu pŵer o 9.9MW (Megawat).


Mae'r cynnig hwn yn estyniad i ddatblygiad 20MW a ganiatwyd ar dir ym Mwynglawdd Brig Bryn Henllys. Cymeradwyodd y pwyllgor cynllunio'r cais hwn ym mis Mehefin 2018, ond nid yw wedi cael ei ddatblygu eto. Rydym bellach yn gweithio gyda pherchennog y tir er mwyn cwblhau'r gwaith ar y ddau safle. Rydym yn cynnal nifer o asesiadau amgylcheddol amrywiol i helpu i lunio ein cynlluniau. Mae'r rhain yn cynnwys asesu'r tirwedd a'r nodweddion gweledol, asesu'r dreftadaeth a'r archaeoleg, asesu ecoleg ac adareg, hydroleg a mwy.


Rhan bwysig o ddatblygu cynlluniau ar gyfer y fferm solar newydd yw ymgysylltu â chymunedau lleol. Felly, rydym yn cynnal digwyddiad gwybodaeth er mwyn dangos ein cynlluniau a chasglu adborth. Bydd aelodau o dîm Lightsource BP wrth law i ateb unrhyw gwestiynau am y cynnig newydd gan drigolion lleol a phawb sydd â diddordeb.

 **8,840 MWh** (Megawat awr) yn cael eu cyflenwi bob blwyddyn

 Mae hyn yn gywerth ag anghenion ynni **2,679** o gartrefi

 **65** erw o dir

 Arbed **3,372** o dunelli o allyriadau carbon

 Mae hyn yn gywerth â rhoi'r gorau i ddefnyddio **717** o geir

Cymryd rhan!

DIGWYDDIAD GWYBODAETH I'R GYMUNED

Dydd Iau, 1 Awst 2019

Canolfan Gymuned Ystradowen
38 Heol Newydd, Cwmllynfell,
Abertawe SA9 2YY

Galwch draw unrhyw dro rhwng 3.30pm a 6.00pm Os nad ydych chi'n gallu dod i'r digwyddiad hwn, ac os ydych chi'n dymuno trafod y prosiect, cysylltwch â ni ar 0333 200 0755.



t 0333 200 0755
e info@lightsourcebp.com
www.lightsourcebp.com

EIN SAFBWyNTIAU CYCHWYNNOL

Fferm solar arfaethedig Estyniad Bryn Henllys ger pentref Cwm-twrch Uchaf, Abertawe

Rydym yn dal i ddatblygu'r cynnig hwn, a bydd ein cynlluniau'n datblygu yn seiliedig ar fewnbwn lleol a chanlyniadau ein hasesiadau o'r ecoleg, o'r tirwedd ac o'r dreftadaeth. Dyma ein safbwyntiau ar hyn o bryd. I gael rhagor o wybodaeth, ymunwch â ni yn ein digwyddiad gwybodaeth i'r gymuned ar ddydd Iau, 1 Awst. Galwch draw rhwng 3.30pm a 6.00pm.



CWESTIYNAU CYFFREDIN

Pam mae'r prosiect hwn yn bwysig?

Mae ynni solar yn fath o dechnoleg oddefol, sy'n cynhyrchu trydan heb greu unrhyw wastraff na llygryddion. Mae hyn yn golygu bod ynni solar yn ffynhonnell ynni ddefnyddol i'r DU wrth i dargedau 2020 ar gyfer ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon ddod gam yn nes.

Sut bydd yr offer yn cael ei ddiogelu?

Bydd ffens bren a gwifrau tua 2 fetr o uchder yn amgylchynu'r fferm solar, a bydd camerau Teledu Cylch Cyfyng yn monitro'r ffens derfyn a'r ardal o fewn y fferm solar. Bydd y rhain yn cael eu gosod mewn manau penodol i sicrhau nad ydynt yn amharu ar breifatrwydd trigolion.

Sut bydd y paneli'n cael eu cadw'n lân?

Yn gyffredinol, mae glaw yn helpu i gadw llwch a baw oddi ar y paneli. Bydd y paneli'n cael eu glanhau'n drwyadl sawl gwaith yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio cyfarpar arbenigol, i sicrhau bod y gosodiad yn y cyflwr gorau posibl.

A all ffermydd solar fod yn beryglus i iechyd?

Na - mae ynni solar yn dechnoleg oddefol ac nid yw'n cynhyrchu unrhyw sgit-gynhyrchion niweidiol. Mae'r holl offer trydan rydym yn ei ddefnyddio'n bodloni'r Gyfarwydddeb Cydweddoldeb Electromagnetig (EMC) ac yn cynnwys nod CE.

A fydd y fferm solar yn amharu ar draffig?

Ychydig iawn o waith cynnal a chadw fydd angen ei wneud ar y fferm solar ar ôl iddi gael ei gosod. Byddai ceir rheolaidd neu geir 4x4 yn ymweld â'r safle bob mis yn fras, ond ni fyddai hyn yn amharu ar draffig. Bydd cynllun rheoli traffig yn cael ei roi ar waith tra bydd y fferm solar yn cael ei hadeiladu.